# Grantiau Rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil 2026

---

Galwad yn Agor: 5 Ionawr 2026

Galwad yn Cau: 23 Ionawr 2026, 4 pm

Cyflwyno drwy Ffurflen Gais ar-lein

---

Yn yr hinsawdd ariannu Addysg Uwch bresennol, mae cyllid sefydliadol ar gyfer Rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil yn gynyddol gyfyngedig. O ganlyniad, mae llawer o rwydweithiau a oedd yn ganolog i gryfhau diwylliannau ymchwil ar lawr gwlad bellach heb gefnogaeth ac mewn perygl o gau. Nod Grantiau Rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil Cymdeithas Ddysgedig Cymru yw mynd i'r afael â'r her hon drwy ddarparu hyd at £3,000 i gefnogi rhwydweithiau ymchwilwyr presennol neu sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru i barhau i gynnig gweithgareddau cydweithio hanfodol o ran diwylliant ymchwil. Rydym yn falch iawn o gael cydweithio â Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wrth lansio'r cynllun grant newydd hwn.

## Beth yw rhwydwaith diwylliant ymchwil?

Gellir deall diwylliant ymchwil yn fras fel y gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r gefnogaeth strwythurol ar y cyd o fewn prifysgolion, sefydliadau cyhoeddus, neu gyrff ymchwil trydydd sector sy'n dylanwadu ar sut mae ymchwil yn cael ei chynnal, ei phrofi a'i gwerthfawrogi gan unigolion a chymunedau. At ddibenion y grant hwn, rydym yn diffinio Rhwydwaith Diwylliant Ymchwil fel grŵp o ymchwilwyr sy'n dod ynghyd i fynd i'r afael â her neu ddiffyg penodol o fewn y tirlun ymchwil. Gall Rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil gymryd sawl ffurf; mae enghreifftiau'n cynnwys rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar heriau a wynebir mewn cyfnod penodol o ran gyrfa, dileu rhwystrau i ymchwilwyr â nodweddion gwarchodedig, a chymunedau sydd wedi'u trefnu o amgylch disgyblaethau penodol neu ddiddordebau ymchwil trawsddisgyblaethol.

Gall rhwydweithiau ymchwil weithredu o fewn un sefydliad neu ar draws sefydliadau. Gallant fod wedi'u seilio mewn un ddisgyblaeth academaidd neu fod yn rhyngddisgyblaethol.

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Pwy all ymgeisio?

Gall ymchwilwyr neu grwpiau o ymchwilwyr sy'n gweithio yng Nghymru gyflwyno ceisiadau. Er nad oes angen i bob aelod o'r Rhwydwaith fod yn gweithio yng Nghymru, rhaid i ymgeiswyr arweiniol a'r rhai sy'n gwneud cais am grant:

- fod yn academydd llawn amser neu ran-amser sy'n cael ei gyflogi gan sefydliad Addysg Uwch;
- fod yn staff llawn amser neu ran-amser sy'n galluogi ymchwil yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector sydd ag ymrwymiad amlwg i ymchwil o fewn y sefydliad dan sylw.

Rhaid i ymgeiswyr arweiniol fod â chontract, naill ai dros dro neu barhaol, yn eu sefydliad cyflogi, sy'n cwmpasu cyfnod llawn y grant.

Bydd cynigion yn cael eu hasesu gan banel a benodir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, a fydd yn dod i gonsensws wrth benderfynu pa gynigion sy'n llwyddiannus.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl y meini prawf a restrir yn yr adran 'Beth rydym yn chwilio amdano'. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth cyn cadarnhau bod grant yn llwyddiannus.

Noder mai dim ond un Grant Rhwydwaith Ymchwil a Diwylliant Cymdeithas Ddysgedig Cymru y gellir ei ddal, neu wneud cais amdano, ar unrhyw un adeg.

## Beth rydym yn chwilio amdano

Rydym yn awyddus i ariannu gweithgareddau sy'n dod ag ymchwilwyr ynghyd i fynd i'r afael â her neu ddiffyg diwylliant ymchwil o fewn y tirlun ymchwil, boed ar draws sectorau neu o fewn disgyblaeth benodol, cam gyrfa, neu nodwedd warchodedig. Dylai gweithgareddau arfaethedig gyfrannu at newid cadarnhaol mewn diwylliant ymchwil neu ddangos effaith o fewn a thu hwnt i'r byd academaidd, gan gyfoethogi ein dealltwriaeth o ddiwylliant ymchwil ar draws sefydliadau o safbwynt cymunedau ymchwilwyr ar lawr gwlad.

Bydd gweithgareddau a ariennir yn canolbwyntio'n bennaf ar ddigwyddiadau a gallant gynnwys cynadleddau, gweithdai, trafodaethau bord gron, enciliadau ysgrifennu, a chyfleoedd rhwydweithio ffurfiol ac anffurfiol.

Anogir ymgeiswyr i archwilio allbynnau creadigol a gweledol fel ffordd o rannu'r wybodaeth a gynhyrchir trwy eu gweithgareddau. Gallai'r allbynnau hyn gynnwys darn 'gwersi a ddysgwyd', cyfres blog, cylchgrawn, ffeithluniau, posteri digidol, penodau podlediad neu fideos byr. Dylai allbynnau sicrhau bod y mewnwelediadau a gynhyrchir yn hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol ac anacademaidd.

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Manylion ariannu

Gall ymgeiswyr wneud cais am hyd at £3,000 i gefnogi eu gweithgareddau a'u hallbynnau arfaethedig. Dylai cynigion gynnwys costau uniongyrchol a gyfiawnhawyd yn llawn sy'n codi wrth gyflawni'r prosiect.

Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

- adnoddau staff (gan gynnwys gweinyddu a chydlynu, cyfraniadau at gyflogau (lle bydd unigolyn a enwir yn ymgymryd â gwaith na fyddai'n cael ei ystyried yn rhan o'i ddyletswyddau arferol), is-gontractio gwasanaethau, neu alluogi partneriaid cyhoeddus neu gymunedol i gymryd rhan).
- adnoddau nad ydynt yn adnoddau staff (gan gynnwys cost deunyddiau, teithio a chynhaliaeth, arlwyo, nwyddau traul, deunyddiau ac offer, cyfieithu ac ati).
- ariannu treuliau megis honorariwm am amser, gofal plant a chostau eraill i ganiatáu i'r rhai y tu allan i'r byd academaidd gyfranogi os yw'n berthnasol.

Rhaid i'r gyllideb a'r costau fod yn seiliedig ar amcangyfrifon dilys. **Ni fydd cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer:**

- ystadau a chostau anuniongyrchol;
- prynu alcohol mewn perthynas â chostau teithio a chynhaliaeth ac arlwyo
- offer swyddfa a gliniaduron, neu unrhyw offer nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal y gweithgaredd;
- treuliau sy'n codi wrth gyflwyno'r cynnig;

### Darparu'r grantiau

Bydd y broses o ddarparu'r grantiau hyn fel a ganlyn:

- Bydd archeb brynu yn cael ei chodi, ac fe rennir rhif archeb brynu.
- Bydd y gweithgareddau Diwylliant Ymchwil a ariennir yn rhedeg o fis Chwefror i fis Gorffennaf 2026.
- Bydd y grant yn cael ei dalu i'r sefydliad arweiniol drwy anfoneb (y mae'n rhaid iddi gynnwys rhif yr archeb brynu, cyfeiriad y safle, cyfeiriad Cymdeithas Ddysgedig Cymru a rhif anfoneb unigryw) ar ôl i'r costau godi.

### Effaith ac adrodd

Gofynnir i'r rhai sy'n derbyn grantiau roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd (trwy ffurflen fer) ac adroddiad terfynol yn amlinellu gweithgareddau, canlyniadau ac effaith y prosiect erbyn diwedd y cyfnod ariannu.

CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Sut i wneud cais

Rhaid cyflwyno cynigion drwy'r ffurflen ar-lein erbyn 23 Ionawr 2026, 4pm. Ni fydd unrhyw ddogfennau eraill yn cael eu hystyried. Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dyma ddyddiadau allweddol y cynllun:

- Galwad yn Agor: 5 Ionawr 2026
- Galwad yn Cau: 23 Ionawr 2026
- Dyddiad cychwyn y prosiect: ar ôl Chwefror 2026
- Adroddiad interim i'w gyflwyno: diwedd Mehefin 2026
- Adroddiad terfynol i'w gyflwyno: Awst 2026

### Canllawiau ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais Ar-lein

Mae'r ffurflen gais ar-lein ar gael yma. Gall ymgeiswyr hefyd gael mynediad at gopi y gellir ei lawrlwytho o'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen ar ein gwefan.

Cynghorir ymgeiswyr i ysgrifennu eu hatebion gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol ar wahân (e.e., Microsoft Word) ac yna eu copïo a'u gludo i'r ffurflen ar-lein i'w chyflwyno. Bydd hyn yn atal unrhyw golled gwaith os na allwch gwblhau'r cais mewn un eisteddiad. Rydym hefyd yn argymell cadw copi o'ch atebion ar gyfer eich cofnodion.

Rydym wedi darparu terfynau nifer geiriau ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am atebion hirach. Rydym yn argymell cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r panel adolygu allu asesu'r cais.

Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth lenwi'r ffurflen neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, cysylltwch ag aelod o Dîm Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn: researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk

## Diogelu Data

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn storio eich data yn unol â'i Pholisi Preifatrwydd, sydd ar gael yma.

## Rhagor o Wybodaeth

Cysylltwch â'n Tîm Datblygu Ymchwilwyr (researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk) os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch.